**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

**Cynhelir Cyfarfod Blynyddol yr AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU ddydd Llun 20 MEHEFIN 2022 dros Zoom. Dechreuir y cyfarfod am 9.30am.**

Yn gywir

Gareth Owens
Clerc

**AGENDA**

**1 Ymddiheuriadau**

**2 Penodi Cadeirydd 2022/23**

**3 Penodi Dirprwy Gadeirydd 2022/23**

**4 Penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd i'r Pwyllgor Archwilio 2022/23**

**5 Rhybudd o Faterion Brys**

Rhybudd o eitemau y dylid ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

**6 Cofnodion o gyfarfod blynyddol yr Awdurdod 21 Mehefin 2021**

**7 Materion yn Codi**

**8 Aelodaeth yr Awdurdod Tân ac Achub**

**9 Penodiadau i Bwyllgorau a Chyrff Allanol**

**10 Penodiadau i'r Pwyllgor Safonau**

**11 Penodiadau i'r Bwrdd Pensiwn Lleol**

**12 Dyddiadau Cyfarfodydd 2022/23**

**13 Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau**

**14 Materion Brys**

Ystyried unrhyw eitem y penderfyna'r Cadeirydd sy'n fater brys (o dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972) y nodwyd ei gynnwys o dan eitem 4 uchod.

**<u>RHAN II</u>**

**Dim busnes i'w drafod**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion o gyfarfod blynyddol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 21 Mehefin 2021 dros Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 9.30am.

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| D Rees | Cyngor Sir Ynys Môn |
| P R Lewis (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| S Lloyd-Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| N Smith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| B Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| A Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |
| S Glyn | Cyngor Gwynedd |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| J W Parry | Cyngor Gwynedd |
| G A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| B Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Dixon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| B Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C P Everett (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); R Fairhead, H MacArthur ac S Millington (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); S Morris (Prif Swyddog Cynorthwyol); H Howard (Pennaeth Cyllid); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); G Williams (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

1 YMDDIHEURIADAU

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| P Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| V Gay | Cyngor Sir y Fflint |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| G Williams | Cyngor Gwynedd |

2 PENODI CADEIRYDD 2021/22

2.1 Gofynnodd y Clerc am enwebiadau i swydd Cadeirydd yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ddinesig 2021/22.

2.2 Cynigiodd y Cyng. M Ll Davies enw'r Cyng. P R Lewis ac eiliwyd hyn yn unfrydol gan yr holl Aelodau. Ni chynigiwyd unrhyw enwebiadau eraill.

2.3 **PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Peter Lewis yn Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am flwyddyn ddinesig 2021/22.**

3 PENODI DIRPRWY GADEIRYDD 2021/22

3.1 Aeth y Cadeirydd yn ei flaen i geisio cael enwebiadau i swydd Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ddinesig 2021/22.

3.2 Cynigiodd y Cyng. M Ll Davies enw'r Cyng. D Rees ac eiliwyd hyn yn unfrydol gan yr holl Aelodau. Ni chynigiwyd unrhyw enwebiadau eraill.

3.3 **PENDERFYNWYD ethol y Cyng. Dylan Rees i wasanaethau fel Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am flwyddyn ddinesig 2021/22.**

4 PENODI CADEIRYDD A DIRPRWY GADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO

4.1 Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau i swyddi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio am flwyddyn ddinesig 2021/22.

4.2 Ar gyfer swydd Cadeirydd, fe wnaeth y Cyng. G Lowe gynnig enw'r Cyng. Brian Apsley ac eiliwyd hyn yn unfrydol gan yr holl Aelodau. Ni chynigiwyd unrhyw enwebiadau eraill.

4.3 Ar gyfer swydd Dirprwy Gadeirydd, fe wnaeth y Cyng. G Lowe gynnig enw'r Cyng. W O Thomas ac eiliwyd hyn yn unfrydol gan yr holl Aelodau. Ni chynigiwyd unrhyw enwebiadau eraill.

4.4 **PENDERFYNWYD**

(i) **ethol y Cynghorydd Brian Apsley i wasanaethu fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio am flwyddyn ddinesig 2021/22;**
(ii) **ethol y Cynghorydd Owen Thomas i wasanaethu fel Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio am flwyddyn ddinesig 2021/22.**

5 RHYBUDD O FATERION BRYS

5.1 Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau wedi cael eu cyflwyno i'r Clerc er mwyn eu hystyried.

6 COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL DIWETHAF

6.1 Cafodd cofnodion Cyfarfod Blynyddol yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2020 eu cyflwyno, er mwyn iddynt gael eu cymeradwyo.

6.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

7. MATERION YN CODI

7.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion a gyflwynwyd.

8 ADOLYGU CYFANSODDIAD YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB

8.1 Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a oedd yn argymell sefydlu gweithgor i adolygu Cyfansoddid yr Awdurdod..

8.2 Yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("y Ddeddf"), ac o ganlyniad i newidiadau a wnaed i'r modd y mae'r Awdurdod yn gweithredu oherwydd y pandemig, mae'n briodol adolygu'r Cyfansoddiad. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r rheolau ar gyfer y modd y caiff yr Awdurdod ei lywodraethu, ac mae angen newid rhai o'r rheolau hynny er mwyn adlewyrchu gofynion y Ddeddf. At hynny, mae terminoleg y ddogfen yn ymwneud â bod yn bresennol yn ffisegol yn y cyfarfodydd, ac mae angen diweddaru hynny.

8.3 Cydnabu'r Aelodau mai'r argymhelliad oedd i'r gweithgor gynnwys Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod, Cadeiryddion y Pwyllgorau Archwilio a Safonau ac un aelod arall o'r Awdurdod; gwirfoddolodd y Cyng. M Ll Davies i fod y pumed aelod ar y gweithgor.

8.4 **PENDERFYNWYD cytuno**

**(i) bod gweithgor yn cael ei sefydlu (fel y nodir isod) i adolygu'r Cyfansoddiad ac i adrodd yn ôl i'r Awdurdod gyda newidiadau arfaethedig;**

**(ii) penodi y Cyng. Meirick Ll Davies yn aelod o'r gweithgor fel a nodir ym mharagraff 8.3 uchod.**

9 AELODAETH YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB

9.1 Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno er gwybodaeth, i gadarnhau penodi aelodau'r Awdurdod a chyfansoddiad aelodaeth lawn yr Awdurdod ar gyfer 2021/22.

9.2 **PENDERFYNWYD nodi aelodaeth yr Awdurdod ar gyfer 2021/22.**

10 PENODIADAU I BWYLLGORAU AC I GYRFF ALLANOL

10.1 Pwrpas yr adroddiad oedd gwahodd yr Awdurdod i benodi aelodaeth pwyllgorau mewnol a pwyllgorau allanol amrywiol, gan gynnwys y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA).

10.2 **PENDERFYNWYD:**

**(i) peidio â chymhwyso'r egwyddor cydbwysedd gwleidyddol mewn perthynas â Phwyllgorau;**
**(ii) cadarnhau aelodaeth y pwyllgorau fel a nodwyd yn yr adroddiad;**
**(iii) penodi cynrychiolwyr i gyrff allanol, fel y nodir isod:**

| | |
|---|---|
| Grŵp Cyswllt Tân ac Achub Gweinidogol Cadeiryddion a Phrif Swyddogion | Y Cadeirydd |
| Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) | Y Cadeirydd |
| Pwyllgor Cydlynu WLGA | Un cynrychiolydd ar ran y tri ATA |
| Panel WLGA ar gyfer Gwasanaethau Tân | Y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd |
| Y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) | Y Cadeirydd |
| Fforwm yr LGA ar gyfer Gwasanaethau Tân | Un cynrychiolydd ar ran y tri ATA |
| Pwyllgor Materion Cenedlaethol | Y Cadeirydd a'r Dirprwy gadeirydd |

11 DYDDIADAU CYFARFODYDD 2021/22

11.1 Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i roi gwybod i'r Aelodau am ddyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd yn 2021/22.

11.2 Oherwydd y pandemig Covid, nododd yr Aelodau y bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithwir trwy Zoom tan o leiaf yr Hydref.

11.3 **PENDERFYNWYD nodi dyddiadau'r holl gyfarfodydd fel a nodwyd yn yr adroddiad.**

12 CYNLLUN CYDNABYDDIAETH ARIANNOL AELODAU

12.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybodaeth i Aelodau am Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2021/22, sy'n nodi'r newidiadau i'r gydnabyddiaeth i'r Aelodau ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2021.

12.2 **PENDERFYNWYD**

(i) **nodi penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â lwfansau aelodau a chydnabyddiaeth ariannol o 1 Ebrill 2021;**

**(ii) rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Clerc i ddiweddaru'r rhestr o gydnabyddiaeth ariannol i aelodau o fewn cyfansoddiad yr Awdurdod, ac i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i restr 2021/22 o bryd i'w gilydd yn ystod blwyddyn y cyngor, er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn aelodaeth yr Awdurdod, neu o ganlyniad i unrhyw adroddiadau atodol a gyhoeddir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.**

*This document is available in English* **Eitem ar yr agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru-Cyfarfod Blynyddol** |
| Dyddiad | **20 Mehefin 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Gareth Owens (01745 535286)** |
| Pwnc | **Aelodaeth yr Awdurdod Tân ac Achub** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Nodi penodiad aelodau'r Awdurdod fel y cyflwynwyd gan y cynghorau cyfansoddol ar gyfer unai y flwyddyn 2022/23 neu dymor llawn yr Awdurdod o 2022 hyd at 2027.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Nodi penodiad aelodau'r Awdurdod fel y cyflwynwyd gan y cynghorau cyfansoddol ar gyfer unai y flwyddyn 2022/23 neu dymor llawn yr Awdurdod o 2022 hyd at 2027.

## ARGYMHELLION

3 Argymhellir bod yr Aelodau'n nodi aelodaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn unol â'r hyn a nodir uchod.

## CEFNDIR

4 Yn dilyn etholiadau'r awdurdodau lleol ym Mai 2022, gwahoddwyd y cynghorau cyfansoddol i gyflwyno eu penodiadau i wasanaethu fel cynrychiolwyr ar yr Awdurdod Tân ac Achub am y cyfnod llawn o bum mlynedd tan yr etholiadau llywodraeth leol nesaf yn 2027.

## GWYBODAETH

5 Mae'r cynghorau canlynol wedi penodi eu cynrychiolwyr yn amodol ar unrhyw newidiadau i'r cydbwysedd gwleidyddol yn ystod y tymor.

**Sir y Fflint** (6 aelod)
Marion Bateman (Annibynnol)
Paul Cunningham (Llafur)
Adele Davies-Cooke (Ceidwadwyr)
Chrissy Gee (Annibynnol)
Raymond Hughes (Llafur)
Dale Selvester (Annibynnol)

**Gwynedd** (5 aelod)
John Brynmor Hughes (Annibynnol)
Gwynfor Owen (Plaid Cymru)
Arwyn Herald Roberts (Plaid Cymru)
Gareth A Roberts (Plaid Cymru)
Rob Triggs (Annibynnol)

**Wrecsam** (5 aelod)
Bryan Apsley (Llafur)
Marc Jones (Plaid Cymru)
Beverley Parry-Jones (Ceidwadwyr)
Rondo Roberts (Annibynnol)
Paul Rogers (Annibynnol)

**Ynys Môn** (3 aelod)
Jeff M Evans (Annibynnwyr Môn)
Dylan Rees (Plaid Cymru)
Ken Taylor (Plaid Cymru)

**Conwy** (5 aelod)
Carol Beard (Grŵp Annibynnol Cyntaf Conwy)
Neil Coverley (Ceidwadwyr Cymreig)
Chris Hughes (Llafur Cymreig)
Austin Roberts (Plaid Cymru)
Nigel Smith (Grŵp Annibynnol Cyntaf Conwy)

**Sir Ddinbych** (4 aelod)

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Y Gyllideb | Bydd y costau presenoldeb yn dod o'r gyllideb a ddyrannwyd eisoes |
| Cyfreithiol | Mae disgwyl i aelodau ddilyn eu cod ymddygiad bob amser |
| Staff | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Iaith Gymraeg | Ystyrir pob agwedd fel mater o drefn |
| Risg | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |

*This document is available in English* **Eitem ar yr agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru Cyfarfod Blynyddol** |
| Dyddiad | **20 Mehefin 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Gareth Owens (01745 535286)** |
| Pwnc | **Penodiadau i Bwyllgorau a Chyrff Allanol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Diben yr adroddiad yw cynnig bod yr Awdurdod yn penodi aelodau i bwyllgorau mewnol a rhai amrywiol allanol, gan gynnwys cynrychiolydd i'r Gymdeithas Llywodraeth Leol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Diben yr adroddiad yw cynnig bod yr Awdurdod yn penodi aelodau i bwyllgorau mewnol a rhai amrywiol allanol, gan gynnwys cynrychiolydd i'r Gymdeithas Llywodraeth Leol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**ARGYMHELLION**

3 Argymhellir bod yr Awdurdod yn:
- (i) ystyried cymhwyso'r egwyddor o gydbwysedd gwleidyddol i Bwyllgorau;
- (ii) ystyried penodiadau i'r Panel Gweithredol, Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Safonau fel yr amlinellir yn yr adroddiad; a
- (iii) penodi cynrychiolwyr i'r cyrff allanol fel a nodir ym mharagraff 6.

**CEFNDIR**

4 Mae gan yr Awdurdod gyfres o bwyllgorau y gwneir penodiadau iddynt yn y cyfarfod cyntaf neu'r cyfarfod blynyddol. Mae'r rhain wedi eu nodi isod.

5 Yn y gorffennol, mae'r Awdurdod wedi penderfynu peidio â chymhwyso cydbwysedd gwleidyddol i aelodaeth ei Bwyllgorau o dan Reol 20 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990. Edrychwyd ar y mater hwn eto yn ystod adolygiad cyfansoddol yng nghanol 2008-09. Y consensws cyffredinol oedd na fyddai cydbwysedd gwleidyddol yn fuddiol gan fod y trefniadau presennol yn gynhwysol ac yn osgoi creu 'rhaniad gwleidyddol' yn llywodraethiad yr Awdurdod.

6 Cynrychiolir yr Awdurdod ar y cyrff canlynol:

| | |
|---|---|
| Grŵp Cyswllt Cadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân Gweinidogol Tân ac Achub | Y Cadeirydd fel arfer |
| Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) | Y Cadeirydd fel arfer |
| Pwyllgor Cydlynu WLGA | Un cynrychiolydd o'r Tri Gwasanaeth Tân ac Achub |
| Panel Gwasanaethau Tân WLGA | Y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) | Y Cadeirydd fel arfer |
| Fforwm Gwasanaethau Tân LGA | Un cynrychiolydd o'r Tri Gwasanaeth Tân ac Achub |
| Pwyllgor Materion Cenedlaethol | Y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd |

**GWYBODAETH**

7 Gwneir penodiadau i'r pwyllgorau canlynol:-

- Panel Gweithredol (14 aelod)
- Pwyllgor Archwilio (14 aelod)
- Pwyllgor Safonau (2 aelod) (dim angen cydbwysedd gwleidyddol o dan Reoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001) (gweler adroddiad ar wahân ar yr agenda).

8 Mae cylchoedd gwaith y pwyllgorau, os ydynt yn bodoli, wedi eu cynnwys yn y Cyfansoddiad.

9 O ystyried bod rhaid i awdurdodau cyfansoddol gymhwyso'r egwyddor o gydbwysedd gwleidyddol ar eu pwyllgorau nhw (heblaw yn achos cabinetau), anogir awdurdodau i enwebu aelodau i'r Awdurdod hwn ar sail cydbwysedd gwleidyddol. Dylai'r Awdurdod ei hun ystyried yn flynyddol a yw'n dymuno cymhwyso cydbwysedd gwleidyddol, gan nodi'r sylwadau sydd ym mharagraff 3 uchod. Petai'r Awdurdod yn cymhwyso'r egwyddor hon, dylid gwneud penodiadau i bwyllgorau sy'n sicrhau bod gan yr holl awdurdodau cyfansoddol gynrychiolaeth ddigonol.

10 Mae'r Panel Gweithredol yn cynnwys 14 aelod, sef Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Awdurdod a dau aelod o bob awdurdod cyfansoddol. Mae'r aelodaeth yn cynrychioli 50% o aelodaeth yr Awdurdod. Estynnwyd swyddogaeth ac aelodaeth o'r Panel yn yr adolygiad cyfansoddol yn ystod 2008-09.

11 Cytunodd yr Awdurdod i gyflwyno Pwyllgor Archwilio i adolygu, craffu a sicrhau perfformiad gweithredol ac ariannol y sefydliad, yn annibynnol ar y Panel Gweithredol. Aelodaeth y Pwyllgor yw'r 50% o'r aelodau sydd heb eu penodi ar y Panel Gweithredol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Y Gyllideb | Bydd y costau presenoldeb yn dod o'r gyllideb a ddyranwyd eisoes |
| Cyfreithiol | Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â'r cylch gorchwyl y cytunwyd arno.<br>Mae disgwyl i aelodau ddilyn y cod ymddygiad bob amser |
| Staff | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Iaith Gymraeg | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Risg | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |

**PANEL GWEITHREDOL**

| **Aelod** | **Awdurdod Cyfansoddol** |
|---|---|
| Cadeirydd | |
| Dirprwy Gadeirydd | |
| Dylan Rees | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Ken Taylor | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Rondo Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Paul Rogers | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Nigel Smith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | Cyngor Sir y Fflint |
| | Cyngor Sir y Fflint |
| | Cyngor Sir Ddinbych |
| | Cyngor Sir Ddinbych |
| | Cyngor Gwynedd |
| | Cyngor Gwynedd |

**PWYLLGOR ARCHWILIO**

| **Aelod** | **Awdurdod Cyfansoddol** |
|---|---|
| Jeff M Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Neil Coverley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | Cyngor Sir y Fflint |
| | Cyngor Sir y Fflint |
| | Cyngor Sir y Fflint |
| | Cyngor Sir y Fflint |
| | Cyngor Sir Ddinbych |
| | Cyngor Sir Ddinbych |
| | Cyngor Gwynedd |
| | Cyngor Gwynedd |
| | Cyngor Gwynedd |

*This document is available in English* **Eitem ar yr agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – Cyfarfod Blynyddol** |
| Dyddiad | **20 Mehefin 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Gareth Owens (01745 535286)** |
| Pwnc | **Penodi Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub i Wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Penodi dau aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Penodi dau aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.

**ARGYMHELLION**

3 Bod yr Awdurdod yn penodi dau aelod i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau hyd yr etholiadau cyffredinol nesaf.

**CEFNDIR**

4 O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, mae'n ofynnol bod gan yr Awdurdod Tân ac Achub Bwyllgor Safonau. Mae pedwar aelod annibynnol ar y pwyllgor.

5 Gellir penodi unrhyw aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub, ar wahân i'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd, i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.

6 O dan Reoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001, nid yw'r gofynion o safbwynt cydbwysedd gwleidyddol, a nodir yn Rhan I Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, yn berthnasol ar gyfer y penodiadau hyn.

**CYNGOR**

7 Mae unrhyw un o'r aelodau, ar wahân i'r Cadeirydd neu'r Dirprwy Gadeirydd, yn gymwys ar gyfer cael eu penodi'n aelodau o'r Pwyllgor.

8 Ni waeth pa aelod a benodir, bydd yn rhaid iddynt wasanaethu hyd yr etholiadau cyffredinol lleol ym mis Mai 2027. Bydd cyfnod aelodau'r Pwyllgor Safonau yn dod i ben fel a ganlyn:

- 2 aelod annibynnol – ail dymor yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2025
- 2 aelod annibynnol - tymor cyntaf yn dod i ben ym mis Awst 2023
- 2 aelod o'r Awdurdod Tân - Mai 2027 (yn ddibynnol ar yr unigolion a benodir, bydd un aelod neu'r ddau yn gymwys ar gyfer cael eu hailethol i wasanaethu am dymor arall).

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Y Gyllideb | Bydd y costau presenoldeb yn dod o'r gyllideb a ddyrannwyd eisoes |
| Cyfreithiol | Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â'r cylch gorchwyl y cytunwyd arno.<br>Mae disgwyl i aelodau ddilyn y cod ymddygiad bob amser |
| Staff | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Iaith Gymraeg | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Risg | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |

*This document is available in English* **Eitem ar yr agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru Cyfarfod Blynyddol** |
| Dyddiad | **20 Mehefin 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Gareth Owens (01745 535286)** |
| Pwnc | **Penodi Aelodau Awdurdod Tân ac Achub i wasanaethu ar y Bwrdd Pensiwn Lleol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Penodi pedwar aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub i wasanaethu ar Fwrdd Pensiwn Lleol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Penodi pedwar aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub i wasanaethu ar Fwrdd Pensiwn Lleol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

**ARGYMHELLIAD**

3 Gofynnir i'r aelodau:

(i) nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad;
(ii) ethol pedwar cynrychiolydd i'r bwrdd pensiwn lleol.

**CEFNDIR**

4 Sefydlwyd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn 2015 yn dilyn dyfodiad y Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 mewn perthynas â Chynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân.Mae'r rhaid cynnwys nifer gyfartal o gyflogwyr a gweithwyr cynrychiadol ar y bwrdd. O ganlyniad bydd gofyn i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru enwebu hyd pedwar o'r Awdurdod Tân i eistedd ar y bwrdd.

**GWYBODAETH**

5 Mae Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 yn darparu trefniadau llywodraethu mwy pendant ynghyd â rolau penodol diffiniedig, rhagor o wybodaeth a fydd yn cael ei gyhoeddi'n gyson, ac ymarferion gweinyddu sydd yn unol â'r rhai yn y sector breifat.

6 Y Byrddau Pensiwn Lleol fydd yn gyfrifol am helpu rheolwr y cynllun (yr Awdurdod Tân ac Achub) i sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu i safon briodol ac, yn benodol, bydd yn:

- sicrhau bod cynlluniau pensiwn yn cael eu gweinyddu yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac unrhyw gyfarwyddyd gan y Rheoleiddiwr Pensiwn i'r cynllun
- cynorthwyo rheolwr y cynllun (yr Awdurdod Tân ac Achub) i sicrhau bod y cynllun pensiwn yn cael ei weinyddu'n effeithiol ac effeithlon
- meddu ar wybodaeth addas am y cynllun y mae'n helpu i'w gynnal
- sicrhau bod yr wybodaeth ar gael i aelodau'r cynllun a phartïon eraill sydd â diddordeb fel y gallant weld a deall pwy yw aelodau'r bwrdd, sut y mae aelodau'r cynllun pensiwn yn cael eu cynrychioli ar y bwrdd pensiwn a chyfrifoldebau'r bwrdd pensiwn
- atal unrhyw un rhag bod yn aelod o'r bwrdd pensiwn os oes ganddynt fuddiannau eraill a all effeithio ar eu gallu i gyflawni eu rôl.

7 Rheolwr y cynllun (yr Awdurdod Tân ac Achub) fydd yn gyfrifol am benodi aelodau i'r bwrdd pensiwn. Mae'n rhaid i reolwr y cynllun sicrhau nad oes gwrthdaro o ran buddiannau pan fydd aelod yn cael ei benodi, a thra bydd yr aelod yn gwasanaethu. Diffinnir gwrthdaro buddiannau fel buddiant ariannol neu unrhyw fudd arall sydd yn debygol o niweidio'r modd y mae'r unigolyn yn cyflawni ei swyddogaethau fel aelod o'r bwrdd pensiwn.

8 Mae Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn cael eu cynnwys yng nghyfrifon GTAGC ac y maent yn cael eu hariannu yn y pen draw gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Y Trysorydd sydd yn gyfrifol am ardystio'r hawliadau i Lywodraeth Cymru ac y maent yn cael eu harchwilio'n flynyddol gan yr archwilwyr allanol. Byddai hefyd yn briodol pe byddai gan y Swyddog Monitro a'r Trysorydd yr hawl i fynychu neu gael eu cynrychioli yng nghyfarfodydd y bwrdd pensiwn lleol.

**Gofynion Aelodau**

9 Mae'n rhaid i aelodau bwrdd pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus fod yn gyfarwydd â rheolau'r cynllun ac unrhyw ddogfennau sydd yn cofnodi polisi ynglŷn â gweinyddiaeth y cynllun. Gan mai bwrdd (yn hytrach na phwyllgor) yw hwn, gall yr Awdurdod benodi swyddogion yn ogystal â chynghorwyr fel cynrychiolydd y cyflogwr. Yn hanesyddol, y clerc a'r trysorydd sydd wedi gwasanaethu fel cynrychiolwyr y cyflogwr.

10 Mae'n rhaid i aelodau feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r gyfraith mewn perthynas â phensiynau ac unrhyw faterion eraill sydd wedi eu rhagnodi yn y rheoliadau.

11 Bydd y Rheoleiddiwr yn darparu rhaglen e-ddysgu i gwrdd ag anghenion holl aelodau'r bwrdd pensiwn.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Y Gyllideb | Bydd y costau presenoldeb yn dod o'r gyllideb a ddyrannwyd eisoes |
| Cyfreithiol | Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â'r cylch gorchwyl y cytunwyd arno.<br>Mae disgwyl i aelodau ddilyn y cod ymddygiad bob amser |
| Staff | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Iaith Gymraeg | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Risg | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |

*This document is available in English* **Eitem ar yr agenda 12**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru Cyfarfod Blynyddol** |
| Dyddiad | **20 Mehefin 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Gareth Owens (01745 535286)** |
| Pwnc | **Dyddiadau ar gyfer Cyfarfodydd 2022-24** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Hysbysu aelodau o ddyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub, Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2022-24.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Hysbysu aelodau o ddyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub, Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio fel a nodir ym mharagraffau 7-11 yr adroddiad hwn.

**ARGYMHELLIAD**

3 Argymhellir bod aelodau'n nodi dyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub, Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio.

**GWYBODAETH**

**Awdurdod Tân ac Achub**

4 Mae Rheol Sefydlog 4(2) o Reolau Sefydlog yr Awdurdod yn nodi

"y dylid cynnal cyfarfodydd o'r Awdurdod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, gyda'r cyfarfod blynyddol i'w gynnal cyn ddiwedd Mehefin. Cynhelir y cyfarfodydd hyn, fel arfer, ar y trydydd dydd Llun o'r mis oni bai fod y Cadeirydd mewn ymgynghoriad â'r Clerc a'r Prif Swyddog Tân yn newid hyn."

5 The Authority has agreed a multi-location meeting which explain its approach to the holding of meetings of its members, and how the public may view and/or participate in them.

6 Dyma'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yr Awdurdod:

Dydd Llun 17 Hydref 2022
Dydd Llun 16 Ionawr 2023
Dydd Llun 17 Ebrill 2023
Dydd Llun 17 Gorffennaf 2023 (cyfarfod blynyddol)
Dydd Llun 16 Hydref 2023
Dydd Llun 22 Ionawr 2024
Dydd Llun 15 Ebrill 2024

**Cyfarfodydd Panel Gweithredol a Phwyllgor Archwilio**

7 Cynhelir y Pwyllgor Archwilio am 9.30am a'r Panel Gweithredol am 2.00pm ar yr un diwrnod

Dydd Llun 29 Gorffennaf 2022
Dydd Llun 19 Medi 2022
Dydd Llun 12 Rhagfyr 2022
Dydd Llun 20 Mawrth 2023
Dydd Llun 19 Mehefin 2023
Dydd Llun 18 Medi 2023
Dydd Llun 18 Rhagfyr 2023
Dydd Llun 18 Mawrth 2024

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Y Gyllideb | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Cyfreithiol | Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â Rheolau Sefydlog ATAGC a'r cylch gorchwyl perthnasol<br>Mae disgwyl i aelodau ddilyn y cod ymddygiad bob amser |
| Staff | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Iaith Gymraeg | Mae holl gyfarfodydd yr Awdurdod Tân yn cydymffurfio â chydraddoldeb |
| Risg | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |

*This document is available in English* **Rhif ar yr Agenda 13**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – Cyfarfod Blynyddol** |
| Dyddiad | **20 Mehefin 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Gareth Owens, Clerc a Dafydd Edwards, Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Gareth Owens (01745 535286)** |
| Pwnc | **Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi gwybod i Aelodau am Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2022/23, sy'n nodi'r newidiadau i'r gydnabyddiaeth i'r Aelodau ddaeth i rym ar 20 Mehefin 2022.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae adroddiad blynyddol y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn nodi'r newidiadau i'r gydnabyddiaeth i'r aelodau. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am y newidiadau hynny sy'n effeithio aelodau'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

**ARGYMHELLION**

3 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â lwfansau aelodau a chydnabyddiaeth ariannol o 20 Mehefin 2022;

(ii) rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Clerc i ddiweddaru'r rhestr o gydnabyddiaeth ariannol i aelodau o fewn cyfansoddiad yr Awdurdod, ac i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i restr 2022/23 o bryd i'w gilydd yn ystod blwyddyn y cyngor, er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn aelodaeth yr Awdurdod, neu o ganlyniad i unrhyw adroddiadau atodol a gyhoeddir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

**SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r Aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

**CEFNDIR**

5 Ymestynnwyd cylch gwaith Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol trwy Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. O dan y pwerau a ddarperir gan y Mesur bu i'r Panel lunio cyfres newydd o Reoliadau a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2012. Mae'r Rheoliadau'n gymwys i daliadau a wneir i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol a'r tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru.

**GWYBODAETH**

6 Ar gyfer 2022/23, mae'r Panel wedi penderfynu gwneud cynnydd bach yn y cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau etholedig o brif gynghorau, felly bydd cynnydd i aelodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

7 Ar gyfer awdurdodau tân ac achub mae'r Panel wedi gwneud y penderfyniadau canlynol:

| | **Cyflog 2022/23 i ddechrau o 1 Ebrill 2022** | Cyflog 2021/22 |
|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol ar gyfer Aelodau cyffredin o ATA | **£2,369** | £2,026 |
| Uwch gyflog ar gyfer Cadeirydd ATA | **£11,162** | £10,818 |
| Uwch gyflog ar gyfer Dirprwy Gadeirydd yr ATA a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio* | **£6,109** | £5,765 |

* gellir talu uwch gyflog ar gyfer dirprwy gadeirydd a hyd at ddau gadeirydd pwyllgor ATA lle ceir cyfrifoldeb sylweddol a pharhaus.

8 Yn ychwanegol at yr uchod:

- mae'r Panel wedi penderfynu cynnwys darpariaeth ar gyfer ATAau i wneud cais am uwch gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt yn perthyn i'r fframwaith cydnabyddiaeth ariannol presennol
- ni chaiff aelodau dderbyn mwy nag un uwch gyflog gan ATA
- telir uwch gyflog ATA gan gynnwys cyflog sylfaenol yr ATA ac mae'n rhaid iddo adlewyrchu cyfrifoldeb sylweddol a pharhaus
- ni chaiff aelodau o brif gyngor sy'n cael uwch gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw ATA arall y maent wedi'u henwebu iddo. Lle bo'r sefyllfa hon yn berthnasol, cyfrifoldeb yr aelod unigol yw cydymffurfio.

9 Mae Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn Gadeirydd y Panel Gweithredol hefyd, a gall hawlio un cyflog yn unig. Er mwyn gwahaniaethu rhwng 'prif bwyllgor' a 'phwyllgor arall', argymhellir ei seilio ar nifer y cyfarfodydd a gynhelir bob blwyddyn. Mae'r Panel Gweithredol yn cwrdd bum gwaith y flwyddyn, ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn. Felly, argymhellir bod yr Awdurdod yn parhau â'i benderfyniad blaenorol, sef bod Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cael ei dalu dan y categori "cadeirydd pwyllgor arall".

**Aelodau Annibynnol**

10 Mae'r ffi sy'n cael ei thalu i aelodau'r Pwyllgor Safonau wedi cynyddu ar gyfer 2021/22. Mae'r ffi ddyddiol wedi'i chapio ar uchafswm o 4 diwrnod llawn y flwyddyn ar y gyfradd ganlynol:

| | **Cyflog 2022/23 i ddechrau o 1 Ebrill 2022** |
|---|---|
| Cadeirydd Pwyllgor Safonau | **£268 ffi dyddiol**<br>**(£134 hanner diwrnod)** |
| Aelod Annibynnol | **£210 ffi dyddiol**<br>**(£105 hanner diwrnod)** |

**Lwfans Teithio, Cynhaliaeth a Gofal**

11 Ni chafwyd unrhyw newidiadau i lwfansau teithio, cynhaliaeth a gofal, sy'n unol â chyfraddau Llywodraeth Cymru. Atgoffir Aelodau bod penderfyniad wedi ei wneud yng nghyfarfod yr ATA ym Mehefin 2018 yn datgan bod modd hawlio cynhaliaeth os yw'r aelodau oddi ffwrdd o gartref am bum awr neu fwy, a hynny yn unol â rheoli Cyllid a Thollau EM.

- **Cynhaliaeth**

| | |
|---|---|
| £28 y dydd | Lwfans dydd ar gyfer prydau, gan gynnwys brecwast, lle nad yw'n cael ei ddarparu yn y tâl am aros dros nos. Rhaid bod i ffwrdd am bum awr neu hwy er mwyn hawlio cynhaliaeth. |

- **Llety**

| | |
|---|---|
| £200 y noson | Llundain |
| £95 y noson | Ardaloedd eraill |
| £30 y noson | Aros gyda ffrindiau a/neu deulu |

- Mae'r gyfradd **Milltiroedd** yn aros ar 45c y filltir.

12 Atgoffir yr Aelodau hefyd bod y Panel, er mwyn cefnogi aelodau presennol ac i roi anogaeth ar gyfer amrywiaeth mae'r Panel yn erfyn ar awdurdodau i hybu ac annog mwy o aelodau i hawlio'r ad-daliad o gostau gofal. Rhaid i'r holl awdurdodau ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol (a roddir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol hyd at uchafswm o £403 y mis. Rhaid i'r ad-daliad fod am y costau ychwanegol a ysgwyddwyd gan aelodau er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau cymeradwy. Dim ond ar ôl dangos derbynebau gan y gofalwr y dylid ad-dalu'r costau.

13 Mae penderfyniad y panel ynglŷn â gofal a chymorth personol fel a ganlyn:

"Rhaid i'r holl awdurdodau perthnasol ddarparu taliad tuag at gostau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol (a roddir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol fel a ganlyn:

- Costau gofal ffurfiol (wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru) i'w talu yn unol â thystiolaeth.
- Costau gofal anffurfiol (heb gofrestru) i'w talu hyd at gyfradd uchaf sy'n gyfwerth â Chyflog Byw Gwirioneddol y DU ar yr adeg pan aethpwyd i'r costau.

Rhaid i hyn fod am y costau ychwanegol a ysgwyddwyd gan aelodau i'w galluogi i gyflawni busnes swyddogol neu ddyletswyddau cymeradwy. Rhaid i bob awdurdod sicrhau bod unrhyw daliadau a wneir yn gysylltiedig â busnes swyddogol neu ddyletswydd gymeradwy, fel sy'n briodol. Ni ddylid gwneud taliadau nes bydd derbynebau gan y darparwr gofal wedi'u darparu."

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Y Gyllideb | Mae'r codiadau hyn wedi'u cynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2022/23. |
| Cyfreithiol | Mae Rhan 8 ac atodlenni 2 a 3 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi'r trefniadau ar gyfer talu Aelodau awdurdodau perthnasol a swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Yn unol â Rheoliadau'r Panel a'r canllawiau sydd yn Adroddiad Blynyddol drafft y Panel ar gyfer 2017/18, rhaid i'r Awdurdod lunio a chynnal Rhestr o Gydnabyddiaethau Aelodau, sy'n rhoi manylion y taliadau penodol y mae'n bwriadu eu gwneud i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig yn |

| | |
|---|---|
| | unol â'r lefelau cydnabyddiaeth a lwfansau a benderfynir gan y Panel yn ei Adroddiadau Blynyddol terfynol neu Adroddiadau Atodol. Rhaid i unrhyw newidiadau i'r Rhestr a wneir yn ystod blwyddyn y cyngor gael eu cyfleu i'r Panel cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol ar ôl i'r newidiadau gael eu gwneud. |
| Staff | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Iaith Gymraeg | Nid ystyrir bod angen ymdrin ag unrhyw faterion, oherwydd mae'r argymhellion yr un mor gymwys i'r holl Aelodau ni waeth am y nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb Sengl. |
| Risg | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |